OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1732 (Cy.190)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*9 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 26 a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Awst 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dirymu

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999(**3**).

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "anghenion addysgol arbennig" ("*special educational needs*") yr ystyr a roddir i "*special educational needs*" yn adran 312(1) o Ddeddf Addysg 1996(**4**));

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod addysg lleol yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn ysgol" ("*school year*") yw'r flwyddyn ysgol sy'n gymwys i'r ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod o dan sylw neu, os nad yw'r un flwyddyn ysgol yn gymwys i bob ysgol o'r fath, y flwyddyn ysgol sy'n gymwys i'r nifer fwyaf o ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw;

(**1**) 1998 p.31. Diwygiwyd adran 26 gan adran 149 o, Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p.21), a pharagraffau 1 a 80 o Atodlen 9 iddi.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1999/499, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2001/3710 (Cy.306).
(**4**) 1996 p.56.

ystyr "cynllun" ("*plan*") yw cynllun trefniadaeth ysgolion a rhaid dehongli "cynllun drafft" ("*draft plan*") yn unol â hynny; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cynnwys a hyd cynllun trefniadaeth ysgol

4.—(1) At ddibenion adran 26(2)(a) ac (ab) o'r Ddeddf (sy'n darparu mai datganiad yw cynllun trefniadaeth ysgol sy'n nodi sut mae'r awdurdod yn bwriadu arfer ei swyddogaethau a'i bwerau yn ystod y cyfnod rhagnodedig gyda golwg ar sicrhau darpariaeth addysg gynradd ac uwchradd a fyddai'n diwallu anghenion poblogaeth ei ardal yn ystod cyfnod hwnnw), y cyfnod rhagnodedig yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y caiff y cynllun ei fabwysiadu gan yr awdurdod o dan reoliad 8 neu 9 ac sy'n dod i ben ar ddiwedd y bumed flwyddyn ysgol ar ôl y flwyddyn ysgol pan gyhoeddwyd y cynllun drafft hwnnw.

(2) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (1) at gyhoeddi'r y cynllun drafft yn gyfeiriad at y cynllun drafft cychwynnol hwnnw a gyhoeddwyd o dan reoliad 5, ni waeth a gafodd cynllun drafft o'r newydd a oedd yn disodli'r cynllun drafft hwnnw ei gyhoeddi wedyn o dan reoliad 9(1).

(3) Yn benodol rhaid i'r cynllun ymdrin â —

(a) gwybodaeth ddemograffig sy'n berthnasol i gyflenwad lleoedd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod;

(b) gwybodaeth ystadegol sy'n ymwneud â'r nifer o leoedd sydd mewn bodolaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a gynhelir gan yr awdurdod;

(c) datganiad polisïau ac egwyddorion sy'n berthnasol i ddarparu lleoedd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod;

(ch) casgliadau, ar sail gwybodaeth ddemograffig ac ystadegol, polisïau ac egwyddorion, yn ymwneud ag unrhyw ormodedd neu annigonoldeb o ran darpariaeth addysg gynradd ac uwchradd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef;

(d) cynigion yr awdurdod ar gyfer cywiro unrhyw ormodedd neu annigonoldeb o ran darparu addysg gynradd ac uwchradd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod yn ystod y cyfnod y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef; a

(dd) y ddarpariaeth y mae'r awdurdod yn bwriadu ei gwneud yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig.

(4) Yn gysylltiedig â pharatoi'r cynllun yn unol â'r rheoliad hwn, a mewn perthynas â gweithredu'r cynllun, mae'r awdurdod i ystyried canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi gan y Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyhoeddi cynllun drafft

5.—(1) Rhaid i'r awdurdod gyhoeddi cynllun drafft drwy wneud y canlynol —

(a) anfon (yn ddarostyngedig i -baragraff (2)) gopi at y canlynol —

(i) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;

(ii) Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol pob un o esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru, lle y mae'r cyfan neu unrhyw ran o ardal yr esgobaeth honno yn dod o fewn ardal yr awdurdod;

(iii) Cyfarwyddwr Addysg Esgobaethol pob un o esgobaethau'r Eglwys Gatholig Rufeinig, lle y mae'r cyfan neu unrhyw ran o ardal yr esgobaeth honno yn dod o fewn ardal yr awdurdod;

(iv) Cyngor Cenhadaeth a Gweinidogaeth yr Eglwys yng Nghymru;

(v) Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru;

(vi) Cyd-bwyllgor Addysg Cymru;

(vii) Bwrdd yr Iaith Gymraeg;

(viii) Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;

(ix) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;

(x) Consortiwm Cymunedol Addysg a Hyfforddiant ar gyfer ardal yr awdurdod neu gorff arall o'r fath sydd yn cynrychioli darparwyr lleol ar gyfer addysg a hyfforddiant i bersonau dros oedran ysgol gorfodol; a

(xi) Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a

(b) adneuo copi yn y llyfrgelloedd cyhoeddus hynny yn ardal yr awdurdod y mae'r awdurdod yn barnu eu bod yn briodol.

(2) Ni fydd is-baragraff (1)(a)(i) yn gymwys mewn perthynas â chorff llywodraethu unrhyw ysgol os yw'r awdurdod yn cyhoeddi'r cynllun drafft ar y Rhyngrwyd a hynny ar wefan yr awdurdod a bod gan yr ysgol gyfleusterau sy'n caniatáu cyrchu'r cynllun ar y Rhyngrwyd.

(3) Ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, rhaid cyhoeddi'r cynllun drafft cyntaf ar 31 Rhagfyr 2003, neu cyn hynny.

(4) Rhaid i'r awdurdod baratoi a chyhoeddi cynlluniau drafft pellach ar 31 Rhagfyr 2006 neu cyn hynny, ac ar 31 Rhagfyr neu cyn hynny o fewn pob trydedd flwyddyn ar ôl hynny.

(5) Rhaid i'r awdurdod baratoi a chyhoeddi cynllun drafft ychwanegol mewn unrhyw flwyddyn pan nad yw'n rhaid iddynt gyhoeddi cynllun drafft ychwanegol yn unol â pharagraff (4), os bu unrhyw newid o ran polisi neu amgylchiadau lleol sydd yn ymwneud â darpariaeth addysg gynradd neu uwchradd ers i'r cynllun diwethaf gael ei baratoi.

(6) Cyn cyhoeddi cynllun drafft rhaid i'r awdurdod ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn bersonau priodol.

Cyhoeddi hysbysiad o gynllun drafft

6. Yr un pryd ag y bydd yn cyhoeddi cynllun drafft rhaid i'r awdurdod gyhoeddi hysbysiad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr awdurdod—

(a) yn datgan ymhle y gellir archwilio'r cynllun drafft,

(b) yn rhoi crynodeb o gasgliadau'r cynllun drafft,

(c) yn pennu'r rhannau hynny o ardal yr awdurdod, os deuir i'r casgliad yn y cynllun y dylai camau gael eu cymryd, i gywiro unrhyw ormodedd neu annigonoldeb o ran darparu addysg gynradd neu uwchradd mewn ysgolion a gynhelir mewn rhannau o ardal yr awdurdod, ac

(ch) yn datgan effaith rheoliadau 7 i 11.

Sylwadau ar gynllun drafft

7.—(1) Caniateir i unrhyw berson gyflwyno sylwadau ar gynllun drafft.

(2) Rhaid i'r sylwadau hynny gael eu hanfon at yr awdurdod o fewn y cyfnod o ddeufis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad yn unol â rheoliad 6 (neu os cafodd hysbysiadau eu cyhoeddi mewn papurau newydd gwahanol ar ddyddiadau gwahanol, ar ôl dyddiad cyhoeddi'r hysbysiad diwethaf o'r fath).